# Polisi Masnach Deg Prifysgol Caerdydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen:** | **Polisi Masnach Deg – Prifysgol Caerdydd** |
| **Awdur(on) (enw, teitl swydd ac adran):** | Annabel Hurst, Pennaeth Arlwyo, Cynadleddau a Digwyddiadau, Ystadau a Gwasanaethau'r Campws |
| **Rhif y Fersiwn:** | *Un* |
| **Ymgynghoriadau a gynhaliwyd:** | Grŵp Llywio Systemau Rheoli Amgylcheddol |
| **Cymeradwywyd gan:** | Philip Rees-Jones |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | |
| **Dyddiad Dod i Rym:** | *01.03.2024* |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** | *01.03.2026* |
| **Cynllun Gweithredu:** | *yn cael ei adolygu'n flynyddol* |
| **Y Fersiwn a Ddisodlwyd:** | Polisi Bwyd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd – fersiwn 3 2021/24 |
| **Hanes y Ddogfen** | |
| | |
| | |
| | |

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch chi yn Gymraeg neu mewn fformat arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Arlwyo drwy e-bostio foodanddrink@caerdydd.ac.uk

# Polisi Masnach Deg Prifysgol Caerdydd

## Cyflwyniad:

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo'n gadarn i gefnogi egwyddorion Masnach Deg, gan gydnabod pwysigrwydd arferion moesegol a chynaliadwy wrth fasnachu'n fyd-eang. Mae'r Polisi Masnach Deg hwn yn amlinellu'r camau penodol a gymerwyd gan Brifysgol Caerdydd i integreiddio arferion Masnach Deg ym mhob un o'i meysydd gweithredu, ei chaffis, ei bwytai, a'i gwasanaethau lletygarwch.

*Beth yw Masnach Deg:*
Mudiad byd-eang yw Masnach Deg sy'n canolbwyntio ar sicrhau cyflogau teg, amodau gwaith gwell a chynaliadwyedd amgylcheddol i gynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu.
Ynghlwm wrth yr hyn mae prosesau ardystio megis yr ardystiad Masnach Deg a system ddilysu Sefydliad Masnach Deg y Byd.
Mae Masnach Deg yn rhoi pwyslais ar amodau gwaith boddhaol ac arferion tyfu ecogyfeillgar, gan hyrwyddo system fasnachu fyd-eang sy'n decach ac yn fwy cynaliadwy.

Mae Polisi Masnach Deg Prifysgol Caerdydd yn adlewyrchu ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i arferion moesegol a chynaliadwy, a chaiff ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â safonau Masnach Deg a bod ein hymdrechion i gefnogi Masnach Deg yn gwella'n barhaus.

1. *Caffael:*
   a. Daw'r holl de, coffi, siocled poeth a bananas ac ystod ddethol o siocled a gwin sydd ar gael yn allfeydd adwerthu a lletygarwch Prifysgol Caerdydd o gyflenwyr ardystiedig Masnach Deg.
   b. Bydd y Brifysgol yn ymwneud â chyflenwyr sydd wedi ymrwymo i egwyddorion Masnach Deg ac yn blaenoriaethu perthynas hirdymor â nhw.

2. *Bwydlenni a Labelu:*
   a. Bydd cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu hamlygu'n amlwg ar fwydlenni a labeli yn holl allfeydd adwerthu a lletygarwch y Brifysgol.
   b. Bydd gwybodaeth am yr ardystiad Masnach Deg ac effaith gadarnhaol prynu cynhyrchion Masnach Deg yn cael ei chyfleu i gwsmeriaid drwy arwyddion gweladwy a deunyddiau hyrwyddo.

3. *Digwyddiadau:*
   a. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal digwyddiadau Masnach Deg drwy gydol y flwyddyn academaidd, gan greu cyfleoedd i'r gymuned gael gwybod rhagor am egwyddorion Masnach Deg.
   b. Bydd y Brifysgol yn tynnu sylw at gynhyrchion Masnach Deg ac yn trefnu eu bod ar gael yn y digwyddiadau hyn, gan godi ymwybyddiaeth ac annog dewisiadau gwybodus ymhlith defnyddwyr.

4. *Cyfarfodydd Cynaliadwyedd:*

a. Bydd y Brifysgol yn cynnal cyfarfodydd cynaliadwyedd Masnach Deg bob tymor i asesu a gwella ei hymrwymiad i egwyddorion Masnach Deg.
b. Yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn fydd cynrychiolwyr o adrannau perthnasol, cyflenwyr a sefydliadau myfyrwyr er mwyn trafod cynnydd, heriau a'r cyfleoedd i integreiddio arferion Masnach Deg ymhellach.

5. *Addysg ac Ymwybyddiaeth:*
   a. Bydd Prifysgol Caerdydd yn parhau i addysgu a chodi ymwybyddiaeth y myfyrwyr, y staff a'r gymuned ehangach o arwyddocâd cefnogi Masnach Deg.
   b. Caiff sesiynau gwybodaeth, gweithdai ac ymgyrchoedd addysgol eu trefnu i sicrhau bod cymuned y Brifysgol yn deall egwyddorion Masnach Deg a'u heffaith yn dda.

6. *Monitro ac Adrodd:*
   a. Bydd y Brifysgol yn defnyddio proses SMART i fesur ac olrhain yr effaith a gawn.
   b. Bydd y Brifysgol yn gwneud gwaith monitro parhaus i olrhain y defnydd o gynhyrchion Masnach Deg ac asesu effaith gyffredinol y polisi hwn.
   c. Caiff adroddiad blynyddol ar gaffael, digwyddiadau ac ymdrechion cynaliadwyedd mewn cysylltiad â Masnach Deg ei rannu â chymuned a rhanddeiliaid y Brifysgol.

7. *Pa ran y gallaf i ei chwarae?*
   a. Dewis cynhyrchion Masnach Deg: Dewiswch brynu cynhyrchion Masnach Deg pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Chwiliwch am y label Masnach Deg ar gynnyrch megis te, coffi, siocled, bananas a gwin yn allfeydd adwerthu a lletygarwch y Brifysgol.
   b. Codi ymwybyddiaeth: Rhannwch wybodaeth am Fasnach Deg ymhlith eich cymheiriaid a'ch cydweithwyr. Anogwch eraill i ddewis cynhyrchion Masnach Deg ac esbonio'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar gynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu.
   c. Mynd i ddigwyddiadau Masnach Deg: Cymerwch ran mewn digwyddiadau Masnach Deg sy'n cael eu cynnal gan y Brifysgol. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddod i wybod rhagor am Fasnach Deg, ymgysylltu â'r gymuned a chefnogi'r achos.
   d. Rhoi adborth: Rhannwch eich syniadau a'ch awgrymiadau o ran cynhyrchion a mentrau Masnach Deg. Mae eich adborth yn ein helpu i wella arferion Masnach Deg a'u hintegreiddio ymhellach.
   e. Ymuno â'r sgwrs ynghylch Masnach Deg: Gallwch chi gysylltu â mentrau Masnach Deg y Brifysgol ar y cyfryngau cymdeithasol, mynd i gyfarfodydd cynaliadwyedd yn ystod y tymor a chymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch Masnach Deg.
   f. Manteisiwch ar yr adnoddau addysgol sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol i wella eich dealltwriaeth o egwyddorion Masnach Deg a'u heffaith ar fasnach fyd-eang.

Mae'r Polisi Masnach Deg hwn yn adlewyrchu ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i arferion moesegol a chynaliadwy, a chaiff ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â safonau Masnach Deg a bod ein hymdrechion i gefnogi Masnach Deg yn gwella'n barhaus.

# Polisi Masnach Deg Prifysgol Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth am ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i Fasnach Deg a Bwyd Cynaliadwy;
*https://intranet.cardiff.ac.uk/intranet/staff/documents/catering-documents/Sustainable-Food-Policy-2023-2024.pdf*